# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Gorfodi*

## 21 Cosbau penodedig

(1) Pan fo gan swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd reswm i gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 9, caiff y swyddog roi hysbysiad i'r person yn cynnig cyfle iddo fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig.

(2) Pan fo hysbysiad wedi ei roi i berson o dan yr adran hon mewn cysylltiad â throsedd—

(a) ni chaniateir i unrhyw achos gael ei gychwyn am y drosedd cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) ni chaniateir ei gollfarnu o'r drosedd os yw'n talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(3) Mae'r Atodlen (hysbysiadau cosb benodedig) yn cael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 21 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 21.